



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1224 (Cy.82)

2005 No. 1224 (W.82)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau
neu Ffytostanolau Ychwanegol
(Labelu) (Cymru) 2005**

**The Food with Added Phytosterols
or Phytosterols (Labelling) (Wales)
Regulations 2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004 (OJ Rhif L97, 1.4.2004, t.44) ynghylch labelu bwydydd a chynhwysion bwyd â ffytosterolau, esterau ffytosterol, ffytostanolau a/neu esterau ffytostanol ychwanegol. Mae'r Rheoliad hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol labelu'r bwydydd a'r cynhwysion bwyd hynny â gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys y geiriau "with added plant sterols/plant stanols".

These Regulations, which apply to Wales only, provide for the enforcement of Commission Regulation (EC) No. 608/2004 (OJ No. L97, 1.4.2004, p.44) concerning the labelling of foods and food ingredients with added phytosterols, phytosterol esters, phytosterols and/or phytostanol esters. That Regulation requires such foods and food ingredients to be labelled with additional information, including the words "with added plant sterols/plant stanols".

Gwnaed Rheoliad 608/2004 yn unol â Chyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L109, 6.5.2000, t.29) ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynghylch labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd ("y Gyfarwyddeb"). O ganlyniad, y cynhyrchion y mae Rheoliad 608/2004 yn ymwneud â hwy yw bwydydd a chynhwysion bwyd sydd i'w cyflenwi felly i'r defnyddiwr olaf neu rai y bwriedir eu cyflenwi i fasarlwywyr. Yn rhinwedd Erthygl 13(4) o'r Gyfarwyddeb, mae pecynnau bach penodol a photeli gwydr penodol sydd wedi'u marcio'n annileadwy yn esempt rhag gofynion labelu Rheoliad 608/2004. Mae darpariaeth drosiannol yn Erthygl 3 o'r Rheoliad hwnnw.

Regulation 608/2004 was made pursuant to Directive 2000/13/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No. L109, 6.5.2000, p.29) on the approximation of the laws of the Member States relating to the labelling, presentation and advertising of foodstuffs ("the Directive"). In consequence, the products covered by Regulation 608/2004 are foods and food ingredients which are to be delivered as such to the ultimate consumer or which are intended for supply to mass caterers. By virtue of Article 13(4) of the Directive, certain small packages and indelibly marked glass bottles are exempt from the labelling requirements of Regulation 608/2004. There is a transitional provision in Article 3 of that Regulation.

Yn unol ag Erthyglau 14 a 15 o'r Gyfarwyddeb, mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys esemptiad rhag yr angen i gael eu labelu â rhai o'r manylion sy'n ofynnol gan Rheoliad 608/2004 yn achos bwyd na chafodd ei ragbacio, rhai bwydydd tebyg a chynhyrchion cyffraith ffansi (rheoliad 4).

Pursuant to Articles 14 and 15 of the Directive, these Regulations contain an exemption from the need to be labelled with some of the particulars required by Regulation 608/2004 in the case of food which is not prepacked, certain similar foods and fancy confectionery products (regulation 4).

Yn unol ag Erthyglau 13(1) a (2) a 14 o'r Gyfarwyddeb, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y dull labelu yn achos y manylion sy'n ofynnol (rheoliadau 5 i 7).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd -

- (a) yn creu tramgwyddau ac yn rhagnodi cosb (rheoliad 3) ac yn pennu awdurdodau gorfodi (rheoliad 8);
- (b) yn darparu amddiffyniad o ran allforion, yn unol ag Erthyglau 2 a 3 o Gyfarwyddeb y Cyngor 89/397/EEC (OJ Rhif L186, 30.6.89, t. 23) ar reoli bwydydd yn swyddogol, fel y cânt eu darllen gyda'r nawfed croniclad i'r Gyfarwyddeb honno (rheoliad 9);
- (c) yn ymgorffori darpariaethau penodol o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (rheoliad 10).

Mae arfarniad rheoliadol yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi'i baratoi ar gyfer y rheoliadau hyn a'i osod yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ynghyd â Nodyn Trosi). Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.

Pursuant to Articles 13(1) and (2) and 14 of the Directive, these Regulations make provision as to the manner of labelling in the case of the required particulars (regulations 5 to 7).

These Regulations also -

- (a) create offences and prescribe a penalty (regulation 3) and specify enforcement authorities (regulation 8);
- (b) provide a defence in relation to exports, in accordance with Articles 2 and 3 of Council Directive 89/397/EEC (OJ No. L186, 30.6.89, p. 23) on the official control of foodstuffs, as read with the ninth recital to that Directive (regulation 9);
- (c) incorporate specified provisions of the Food Safety Act 1990 (regulation 10).

A regulatory appraisal pursuant to section 65 of the Government of Wales Act 1998 has been prepared for these regulations and placed in the library of the National Assembly for Wales (together with a Transposition Note). Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW.

2005 Rhif 1224 (Cy.82)**2005 No. 1224 (W.82)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES****Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau
neu Ffytostanolau Ychwanegol
(Labelu) (Cymru) 2005****The Food with Added Phytosterols
or Phytostanols (Labelling) (Wales)
Regulations 2005***Wedi'u gwneud* 26 Ebrill 2005*Made* 26 April 2005*Yn dod i rym* 30 Ebrill 2005*Coming into force* 30 April 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e) ac (f), 17, 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(2), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(3) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(e) and (f), 17, 26(1) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1) and now vested in it(2), having had regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency and after consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council(3) laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety, makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) 2005; deuant i rym ar 30 Ebrill 2005 a maent yn gymwys o ran Cymru yn unig.

Title, commencement and application

1. These Regulations may be cited as the Food with Added Phytosterols or Phytostanols (Labelling) (Wales) Regulations 2005; they come into force on 30 April 2005 and apply in relation to Wales only.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

mae "bisgedi" ("*biscuits*") yn cynnwys wafferi, bisgedi caled, bara ceirch a bara croyw;

ystyr "Cyfarwyddeb 2000/13" ("*Directive 2003/13*") yw Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"biscuits" ("*bisgedi*") includes wafers, rusks, oatcakes and matzoz;

(1) 1990 p. 16.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(3) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

(1) 1990 c. 16.

(2) Functions of the Secretary of State so far as exercisable in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the Food Standards Act 1999 (1999 c.28).

(3) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Regulation (EC) No. 1642/2003 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L245, 29.9.2003, p.4).

Ewrop a'r Cyngor(1) ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynghylch labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd, fel y'i diwygiwyd gan ddiwygiadau hyd at a chan gynnwys y rheini a effeithir gan Gyfarwyddeb 2003/89/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor(2).

ystyr "cyffraith blawd" ("*flour confectionery*") yw unrhyw fwyd wedi'i goginio sy'n barod i'w fwyta heb ei baratoi ymhellach (heblaw ei aildwymo), y mae grawn mât yn gynhwysyn sy'n nodweddiadol ohonno, gan gynnwys teisen frau, sbynjis, cramwyth, myffins, macarwns, rataffias, crwst a chasys crwst, ac mae'n cynnwys hefyd meringues, petits fours a chrwst a chasys crwst sydd heb eu coginio, ond nid yw'n cynnwys bara, pitsas, bisgedi, tafelli cras, bara gwastad allwthiedig nac unrhyw fwyd sy'n cynnwys llenwad y mae unrhyw gaws, cig, syrth, pysgod, pysgod cregyn, deunydd protein llysieuol neu ddeunydd protein microbig yn gynhwysyn ynddo;

ystyr "cynnyrch cyffraith" ("*confectionery product*") yw unrhyw eitem o gyffraith siocled neu gyffraith siwgr;

ystyr "cynnyrch cyffraith ffansi" ("*fancy confectionery product*") yw unrhyw gynnyrch cyffraith ar ffurf ffigwr, anifail, sigarét, neu wy neu ar unrhyw ffurf ffansi arall;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cynnig neu ddangos rhywbeth i'w werthu ac mae'n cynnwys cael rhywbeth yn eich meddiant i'w werthu, a rhaid deall "gwerthiant" ("*sale*") yn unol â hynny;

mae "iâ bwytdwy" ("*edible ice*") yn cynnwys hufen iâ, iâ dŵr a iâ ffrwythau, p'un ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad, ac unrhyw fwyd tebyg;

ystyr "y manylion allweddol" ("*the key particulars*") yw'r manylion hynny a bennir yn eitemau 1 a 5 yn ail is-baragraff Erthygl 2 o Reoliad 608/2004;

ystyr "y manylion penodedig" ("*the specified particulars*") yw'r manylion sy'n ofynnol gan Erthygl 2 o Reoliad 608/2004.

mae "paratoi" ("*preparation*") o ran bwyd yn cynnwys gweithgynhyrchu ac unrhyw fath o brosesu neu drin;

ystyr "Rheoliad 608/2004" ("*Regulation 608/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 608/2004(3) ynghylch labelu bwydydd a chynhwysion bwyd â ffytosterolau, esterâu ffytosterol, ffytostanolau

"confectionery product" ("*cynnyrch cyffraith*") means any item of chocolate confectionery or sugar confectionery;

"Directive 2000/13" ("*Cyfarwyddeb 2003/13*") means Directive 2000/13/EC of the European Parliament and of the Council(1) on the approximation of the laws of the Member States relating to the labelling, presentation and advertising of foodstuffs, as amended by amendments up to and including those effected by Directive 2003/89/EC of the European Parliament and of the Council(2).

"edible ice" ("*iâ bwytdwy*") includes ice-cream, water ice and fruit ice, whether alone or in combination, and any similar food;

"fancy confectionery product" ("*cynnyrch cyffraith ffansi*") means any confectionery product in the form of a figure, animal, cigarette or egg or in any other fancy form;

"flour confectionery" ("*cyffraith blawd*") means any cooked food which is ready for consumption without further preparation (other than reheating), of which a characterising ingredient is ground cereal, including shortbread, sponges, crumpets, muffins, macaroons, rataffias, pastry and pastry cases, and also includes meringues, petits fours and uncooked pastry and pastry cases, but does not include bread, pizzas, biscuits, crispbread, extruded flat bread or any food containing a filling which has as an ingredient any cheese, meat, offal, fish, shellfish, vegetable protein material or microbial protein material;

"the key particulars" ("*y manylion allweddol*") means those particulars specified in items 1 and 5 in the second sub-paragraph of Article 2 of Regulation 608/2004;

"prepacked for direct sale" ("*wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol*") means -

- (a) in relation to a food other than flour confectionery, bread and edible ices, prepacked by a retailer for sale by him or her on the premises where the food is packed or from a vehicle or stall used by him or her, and
- (b) in relation to flour confectionery, bread and edible ices, prepacked by a retailer for sale as in paragraph (a) of this definition, or prepacked by the producer of the food for sale by him or her either on the premises where the food is produced or on other premises from which he or she conducts business under the same name as the business conducted on the premises where the food is produced;

(1) OJ Rhif L109, 6.5.2000, t.29, fel y mae wedi'i gywiro gan Gywiriad (OJ Rhif L124, 25.5.2000, t.66).

(2) OJ Rhif L308, 25.11.2003, t.15.

(3) OJ Rhif L97, 1.4.2004, t.44.

(1) OJ No. L109, 6.5.2000, p.29, as corrected by a Corrigendum (OJ No. L124, 25.5.2000, p.66).

(2) OJ No. L308, 25.11.2003, p.15.

a/neu esterau ffytostanol ychwanegol; ac

ystyr "wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol" ("prepacked for direct sale") yw -

- (a) o ran bwyd heblaw cyffaith blawd, bara ac iâ bwydadwy, wedi'i ragbacio gan fân-werthwr er mwyn i'r mân-werthwr hwnnw ei werthu yn y fangre lle y mae'r bwyd yn cael ei bacio neu o gerbyd neu o stondin a ddefnyddir gan y mân-werthwr hwnnw, a
- (b) o ran cyffaith blawd, bara ac iâ bwydadwy, wedi'i ragbacio gan fân-werthwr i'w werthu fel yn is-baragraff (a) o'r diffiniad hwn, neu wedi'i ragbacio gan gynhyrchydd y bwyd er mwyn i gynhyrchydd y bwyd ei werthu naill ai mewn mangre lle y cynhyrchwyd y bwyd neu mewn mangre arall y mae'r cynhyrchydd bwyd yn cynnal ei fusnes ohoni o dan yr un enw â'r busnes sy'n cael ei gynnal mewn mangre lle y mae'r bwyd yn cael ei gynhyrchu.

(2) Ystyrir bod bwyd wedi'i ragbacio at ddibenion y Rheoliadau hyn-

- (a) os yw'n barod i'w werthu i'r defnyddiwr olaf neu i fasarlwywr, a
- (b) os yw -
 - (i) wedi'i roi mewn pecyn cyn cael ei gynnig i'w werthu yn y fath ffordd ag i beidio â chaniatáu newid y bwyd, p'un a yw'r bwyd wedi'i amgáu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn unig, heb agor neu newid y pecyn, neu
 - (ii) wedi'i amgáu'n gyfan gwbl mewn pecyn cyn cael ei gynnig i'w werthu a bwriedir iddo gael ei goginio heb agor y pecyn,

ond ni fernir bod bwyd wedi'i ragbacio at ddibenion y Rheoliadau hyn os yw'n cynnwys melysyn neu siocled sydd wedi'i lapio'n unigol ac nad yw wedi'i amgáu mewn unrhyw becyn ychwanegol, ac nad yw wedi'i fwriadu ar gyfer ei werthu fel eitem unigol.

(3) Mae i ymadroddion Saesneg eraill a'r ymadroddion Cymraeg cyfatebol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yng Nghyfarwyddeb 2000/13 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Gyfarwyddeb honno.

Tramgwyddau a chosb

3. Yn ddarostyngedig i reoliad 4, os bydd unrhyw berson -

- (a) yn gwerthu unrhyw fwyd y mae gofynion labelu Rheoliad 608/2004 yn gymwys o'i ran ac nad yw wedi'i labelu â'r manylion penodedig, neu
- (b) yn gwerthu unrhyw fwyd nad yw wedi'i labelu yn unol â rheoliad 5, 6 neu 7,

"preparation" ("*paratoi*"), in relation to food, includes manufacture and any form of processing or treatment;

"Regulation 608/2004" ("*Rheoliad 608/2004*") means Commission Regulation (EC) No. 608/2004(1) concerning the labelling of foods and food ingredients with added phytosterols, phytosterol esters, phytosterols and/or phytosterol esters;

"sell" ("*gwerthu*") includes offer or expose for sale and have in possession for sale, and "sale" is to be construed accordingly;

"the specified particulars" ("*y manylion penodedig*") means the particulars required by Article 2 of Regulation 608/2004.

(2) Food is regarded as prepacked for the purposes of these Regulations if -

- (a) it is ready for sale to the ultimate consumer or to a mass caterer, and
- (b) it is -
 - (i) put into packaging before being offered for sale in such a way that the food, whether wholly or only partly enclosed, cannot be altered without opening or changing the packaging, or
 - (ii) wholly enclosed in packaging before being offered for sale and the food is intended to be cooked without opening the packaging,

but food is not to be regarded as prepacked for the purposes of these Regulations if it comprises an individually wrapped sweet or chocolate which is not enclosed in any further packaging and which is not intended for sale as an individual item.

(3) Other expressions used both in these Regulations and in Directive 2000/13 have the same meaning in these Regulations as they have in that Directive.

Offences and penalty

3. Subject to regulation 4, if any person -

- (a) sells any food in respect of which the labelling requirements of Regulation 608/2004 apply and which is not labelled with the specified particulars, or
- (b) sells any food which is not labelled in accordance with regulation 5, 6 or 7,

(1) OJ No. L97, 1.4.2004, p.44.

bydd yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Esemptiad

4. Yn achos -

- (a) bwyd sydd heb ei ragbacio,
- (b) bwyd sydd wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol, neu
- (c) unrhyw gynnyrch cyffeithiol ffansi sydd wedi'i lapio'n unigol ac nad yw wedi'i amgáu mewn unrhyw becyn pellach sydd wedi'i fwriadu ar gyfer ei werthu fel eitem unigol,

nid oes angen labelu'r bwyd hwnnw ag unrhyw rai o'r manylion penodedig heblaw'r manylion allweddol.

Dull labelu: gofyniad cyffredinol

5. Pan werthir unrhyw fwyd heblaw bwyd y mae rheoliad 6 yn gymwys iddo, mae unrhyw fanylion y mae'n ofynnol eu rhoi ar label y bwyd gan Reoliad 608/2004 i ymddangos -

- (a) ar y pecyn,
- (b) ar label sydd ynghlwm wrth y pecyn, neu
- (c) ar label y gellir ei weld yn eglur drwy'r deunydd pecynnu,

ac eithrio pan werthir y bwyd hwnnw i unrhyw un heblaw'r defnyddiwr olaf, caiff y manylion hyn fel arall ymddangos ar y dogfennau masnachol ynglyn â'r bwyd yn unig, os oes modd gwarantu bod y dogfennau hynny sy'n cynnwys y manylion hyn i gyd, naill ai gyda'r bwyd y maent yn ymwneud ag ef neu wedi cael eu hanfon cyn i'r bwyd gael ei ddanfôn, neu'r un pryd â hynny.

Dull labelu: rheolau arbennig

6.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol -

- (a) bwyd sydd heb ei ragbacio;
- (b) bwyd sydd wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol; ac
- (c) unrhyw gynnyrch cyffeithiol ffansi sydd wedi'i lapio'n unigol ac nad yw wedi'i amgáu mewn unrhyw becyn arall ac y bwriedir ei werthu fel eitem unigol.

(2) Pan fydd unrhyw fwyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn cael ei werthu i'r defnyddiwr olaf, rhaid i'r manylion allweddol y mae Rheoliad 608/2004 yn ei gwneud yn ofynnol eu rhoi ar label y bwyd, fel y'i darllenir ynghyd â rheoliad 4, ymddangos -

- (a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu
- (b) ar fwydlen, hysbysiad, tocyn neu label y mae'n hawdd i ddarpar brynwr ei ddirnad yn y man lle y mae'n dewis y bwyd hwnnw.

he or she is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Exemption

4. In the case of -

- (a) food which is not prepacked,
- (b) food which is prepacked for direct sale or
- (c) individually wrapped fancy confectionery products which are not enclosed in any further packaging and which are intended for sale as single items,

such food need not be labelled with any of the specified particulars other than the key particulars.

Manner of labelling: general requirement

5. When any food other than food to which regulation 6 applies is sold, any particulars with which it is required to be labelled by Regulation 608/2004 are to appear -

- (a) on the packaging,
- (b) on a label attached to the packaging, or
- (c) on a label which is clearly visible through the packaging,

save that, where the sale is otherwise than to the ultimate consumer, such particulars may, alternatively, appear only on the commercial documents relating to the food where it can be guaranteed that such documents, containing all such particulars, either accompany the food to which they relate or were sent before, or at the same time as, delivery of the food.

Manner of labelling: special rules

6.-(1) This regulation applies to -

- (a) food which is not prepacked;
- (b) food which is prepacked for direct sale; and
- (c) any individually wrapped fancy confectionery product which is not enclosed in any further packaging and which is intended for sale as a single item.

(2) When any food to which this regulation applies is sold to the ultimate consumer, the key particulars with which that food is required to be labelled by Regulation 608/2004 as read with regulation 4 are to appear -

- (a) on a label attached to the food, or
- (b) on a menu, notice, ticket or label which is readily discernible by an intending purchaser at the place where he or she chooses that food.

(3) Pan fydd unrhyw fwyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn cael ei werthu ac eithrio i'r defnyddiwr olaf, rhaid i'r manylion allweddol y mae Rheoliad 608/2004 yn ei gwneud yn ofynnol eu rhoi ar label y bwyd, fel y'i darllenir ynghyd â rheoliad 4, ymddangos -

- (a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu
- (b) ar docyn neu hysbysiad y mae'n hawdd i ddarpar brynwr ei ddirnad yn y man lle y mae'n dewis y bwyd hwnnw, neu
- (c) mewn dogfennau masnachol ynglyn â'r bwyd os oes modd gwarantu bod y dogfennau hynny naill ai gyda'r bwyd y maent yn ymwneud ag ef neu wedi cael eu hanfon cyn i'r bwyd gael ei ddanfôn, neu'r un pryd â hynny.

Eglurder y marcio neu'r labelu

7.-(1) Rhaid i'r manylion y mae rheoliad 5 a 6 yn ei gwneud yn ofynnol eu rhoi ar label y bwyd, neu sy'n ymddangos ar fwydlen, hysbysiad, tocyn neu label yn unol â'r rheoliad 6, fod yn hawdd i'w deall, yn hollol ddarllenadwy ac yn annileadwy a, phan fydd bwyd yn cael ei werthu i'r defnyddiwr olaf, rhaid i'r manylion a enwyd gael eu marcio mewn man amlwg mewn ffordd sy'n ei gwneud yn hawdd i'w gweld.

(2) Rhaid peidio â chuddio, tywyllu neu ymyrryd â'r manylion hynny ag unrhyw fater ysgrifenedig neu ddarluniadol arall.

(3) Rhaid peidio â chymryd bod paragraff (1) uchod yn atal rhoi manylion gan fassarwywyr, ynglyn â bwydydd y mae eu hamrywiad a'u math yn cael eu newid yn rheolaidd, drwy gyfrwng dros dro (gan gynnwys defnyddio sialc ar fwrdd du).

Gorfodi

8.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

(2) Rhaid i bob awdurdod iechyd porthladd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal o ran bwyd sydd wedi'i fewnforio.

Amddiffyniad o ran allforion

9. Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir os gall brofi bod y bwyd yr honwyd bod tramgwydd wedi'i chyflawni mewn perthynas ag ef

- (a) wedi'i fwriadu i'w allforio i wlad, heblaw Aelod-wladwriaeth, sydd â deddfwriaeth debyg i Reoliad 608/2004 a bod y bwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno; neu
- (b) wedi'i fwriadu i'w allforio i Aelod-wladwriaeth, yn fwyd y mae Rheoliad 608/2004 yn gymwys iddo, a bod y bwyd yn cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliad

(3) When any food to which this regulation applies is sold otherwise than to the ultimate consumer, the key particulars with which that food is required to be labelled by Regulation 608/2004 as read with regulation 4 are to appear -

- (a) on a label attached to the food, or
- (b) on a ticket or notice which is readily discernible by the intending purchaser at the place where he or she chooses the food, or
- (c) in commercial documents relating to the food where it can be guaranteed that such documents either accompany the food to which they relate or were sent before, or at the same time as, delivery of the food.

Intelligibility of marking or labelling

7.-(1) The particulars with which a food is required to be labelled as referred to in regulation 5 and 6, or which appear on a menu, notice, ticket or label pursuant to regulation 6, are to be easy to understand, clearly legible and indelible and, when a food is sold to the ultimate consumer, such particulars are to be marked in a conspicuous place in such a way as to be easily visible.

(2) Such particulars are not in any way to be hidden, obscured or interrupted by any other written or pictorial matter.

(3) Paragraph (1) is not to be taken to preclude the giving of such particulars by mass caterers, in respect of foods the variety and type of which are changed regularly, by means of temporary media (including the use of chalk on a blackboard).

Enforcement

8.-(1) Subject to paragraph (2), each food authority is to enforce and execute these Regulations in its area.

(2) Each port health authority is to enforce and execute these Regulations in its district in relation to imported food.

Defence in relation to exports

9. In any proceedings for an offence under these Regulations, it is a defence for the person charged to prove that the food in respect of which the offence is alleged to have been committed

- (a) was intended for export to a country, other than a Member State, which has legislation analogous to Regulation 608/2004 and that the food complies with that legislation; or
- (b) was intended for export to a Member State, is food to which regulation 608/2004 applies and the food complies with the provisions of that

hwnnw fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2000/13 fel y'i cymhwysir yn y Wladwriaeth honno.

Regulation as read with Directive 2000/13 as applied in that State.

Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf

10.-(1) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad y dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn -

- (a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.);
- (b) adran 3 (rhagdybio bod bwyd wedi'i fwriadu i bobl ei fwyta);
- (c) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);
- (ch) adran 21 (amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adran 14 neu 15;
- (d) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);
- (dd) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau)(1) i'r graddau y mae'n berthnasol i dramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (3) isod;
- (e) adran 35(2) a (3) i'r graddau y mae'n ymwneud â thrangwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (3) isod;
- (f) adran 36 (tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol).

(2) Wrth gymhwyso adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad) at ddibenion y Rheoliadau hyn, dehonglir y cyfeiriadau yn is-adran (1) i'r Ddeddf fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at Reoliad 608/2004.

(3) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad y dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y Rheoliadau hyn fel y'u darllenir gyda Rheoliad 608/2004 -

- (a) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);
- (b) adran 33(2) gyda'r addasiad yr ystyrir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath ag a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (a) uchod;
- (c) adran 44 (amddiffyniad swyddogion sy'n gweithredu'n ddiwyll).

Application of various provisions of the Act

10.-(1) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or Part thereof is to be construed as a reference to these Regulations -

- (a) section 2 (extended meaning of "sale" etc.);
- (b) section 3 (presumption that food is intended for human consumption);
- (c) section 20 (offences due to fault of another person);
- (d) section 21 (defence of due diligence) as it applies for the purposes of section 14 or 15;
- (e) section 30(8) (which relates to documentary evidence);
- (f) section 35(1) (punishment of offences)(1) in so far as it relates to offences under section 33(1) as applied by paragraph (3) below;
- (g) section 35(2) and (3) in so far as it relates to offences under section 33(2) as applied by paragraph (3) below;
- (h) section 36 (offences by bodies corporate).

(2) In the application of section 32 of the Act (powers of entry) for the purposes of these Regulations, the references in subsection (1) to the Act are construed as including references to Regulation 608/2004.

(3) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act are construed as including a reference to these Regulations as read with Regulation 608/2004 -

- (a) section 33(1) (obstruction etc. of officers);
- (b) section 33(2) with the modification that the reference to "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" is deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in that subsection as applied by sub-paragraph (a) above;
- (c) section 44 (protection of officers acting in good faith).

(1) Diwygir adran 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p.44), Atodlen 26, paragraff 42, o ddyddiad sydd i'w bennu

(1) Section 35(1) is amended by the Criminal Justice Act 2003 (2003 c.44), Schedule 26, paragraph 42, from a date to be appointed

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

26 Ebrill 2005

26 April 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 1224 (Cy.82)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau
neu Ffytostanolau Ychwanegol
(Labelu) (Cymru) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 1224 (W.82)

FOOD, WALES

The Food with Added Phytosterols
or Phytosterols (Labelling) (Wales)
Regulations 2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00

W56/5/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091116-4



9 780110 911168